

Llechi Hynod yn cael eu darganfod mewn sgip

Sawl blwyddyn yn ôl bellach, cefais salwad gan Guradur Amgueddfa Llechi Llanberis yn dweud bod ganddo yn ei feddiant dair llechen gydag arysgrifiadau arnynt yn nodi 'Yma y ganwyd ... John Hughes (Pontrobert), Walter Davies (Gwallter Mechain), a Robert Ellis (Cynddelw) a chan fod y tri yn gysylltiedig â Maldwyn, tybed a oedd diddordeb gennyf i'w cael er mwyn eu gosod ym manau geni y tri. Soniodd i'r llechi gael eu canfod mewn 'skip' ym Mangor gan rywun a deimlodd eu bod yn bwysig, ac nad mewn lle o'r fath y dylent fod. Dirgelwch llwyr oedd sut y bu iddynt gyrraedd yno, efallai y bydd un o ddarlennwyr *Y Casglwr* yn medru cynnig ateb!

Cael hyd i gartref John Hughes

Rhodddwyd llechen John Hughes i berchennog 'Pen-y-Figyn', ac er nad y tŷ gwreiddiol sydd yno, addawyd y byddai'r llechen yn cael ei gosod mewn man addas. Bu canfod man geni Gwallter Mechain a Chynddelw yn fwy o her, ond gyda chymorth parod pobl ardal Llanfechain a Llangynog a chryn waith ymchwil ar ran gohebyddion y papurau bro, canfuwyd bod cartrefi y ddau wedi diflannu ers blynnyddoedd, sef 'Y Wern', Llanfechain a 'Ty'n y Meini', Llangynog.

Y cam nesaf, felly, fu ymweld â pherchnogion presennol y tir lle bu'r tai unwaith, a chanfod digon o ddiddordeb ac ewyllys da tuag at y syniad o roi lle i'r llechi. Bydd llechen Gwallter Mechain yn cael ei gosod ar faen arbennig ar safle ei hen gartref sydd erbyn hyn yn agos i lwybr cyhoeddus, ac felly yn weladwy i bawb fyddai yn cerdded heibio.

Gosod llechen Cynddelw ar fainc

Gosodwyd llechen Cynddelw yn daclus ar fainc yn Awst 2005 ar dir perchennog fferm 'Bryn Dreiniog', Llangynog, Hywel Roberts. Saif y fainc hardd, a adeiladwyd



*Llechen goffa Cynddelw
(Llun Alison Layland)*



Nia Rhosier ger y fainc goffa.

(Llun Alison Layland)

gan Ellis Wyn Lloyd, saer maen lleol, yn ymyl 'Llwybr Dafydd Evans, Plas Du' ac ar safle 'Ty'n y Meini', gyda golygfeydd godidog dros y cwm tua mynyddoedd y Berwyn.

Mae pawb a fu ynglŷn â'r stori hynod hon wrth eu bodd o fedru rhannu'r hanes fel hyn, a neb yn fwy hapus na minnau!

Nia Rhosier

Billy De Wolfe *(parhâd o dud. 5)*

Gymdeithas Cymmrodorion Cymraeg Boston, ac yn Llywydd Cymdeithas Cymanfa Ganu Genedlaethol Gogledd America. Claddwyd ef yn Worcester, Massachusetts.

Ffilmiau

Duffy's Tavern (Paramount 1945)
Miss Sussie Slagle's (Paramount 1945)
Blue Skies (Paramount 1946)
Our Hearts were Growing Up (Paramount 1946)
The Perils of Pauline (Paramount 1947)
Dear Ruth (Paramount 1947)
Variety Girl (Paramount 1947)
Isn't It Romantic? (Paramount 1948)
Dear Wife (Paramount 1949)
Tea for Two (Warner Bros 1950)
Dear Brat (Paramount 1951)
Lullaby of Broadway (W. Bros 1951)
Call Me Madam (20th Cent. 1953)
Billie (United Artist 1965)
The World's Greatest Athlete (VB 1973)

Sioeau

The Doris Day Show (1968) Cyfres Deledu
The Dick Van Dyke Show (1965)
The Debbie Reynolds Show (1970)



John Evans, Siop Newydd, Maes, Billy De Wolfe, Griff Harris, Hafan, Penrallt; Penry Thomas, Melyd, Yr Ala a Dick Humphreys, Y Traeth, Pwllheli, yn Aberdaron ym 1955.

The Dean Martin Show (1968)
Arsenic and Old Lace (1969) Cyfres Deledu
The Queen and I (1969) Cyfres Deledu

Burke's Law (1965) Cyfres Deledu
The Ugliest Dog in the World (1965)
Lullaby of Broadway (1951)